

Rhyd-y-car (41)



Beth yw hi?

- Rhes o chwech bwthyn o ardal Rhyd-y-car ym Merthyr Tudful. Merthyr oedd tref fwyaf Cymru ym 1801, gyda phoblogaeth o 7,000.

Beth ydym ni'n ei wybod am y tai hyn?

- Symudwyd y bythynnod o Ferthyr ym 1982 a'u hailgodi yn yr Amgueddfa rhwng 1984 a 1987.
- Mae Rhyd-y-car yn enghraifft dda o dai teras cynnar. Roedd dwy res o dai teras yn Rhyd-y-car; gydag 16 o dai yn un rhes, ac 13 yn y llall.
- Cafodd y bythynnod eu hadeiladu tua 1795-1800 gan Richard Crawshay, Meistr Haearn ym Merthyr Tudful, fel cartrefi i'w weithwyr. Mae pob bwthyn yn portreadu cyfnod gwahanol, wedi'u dodrefnu fel petaen nhw heb gael eu symud i Sain Ffagan: 1805; 1855; 1895; 1925; 1955; 1985.

Rhyd-y-car (41)

Pwy oedd yn byw yma?

1805

- Mae'r bwthyn hwn wedi'i ddodrefnu fel cartref teulu ifanc o'r gorllewin a oedd yn gweithio yn y mwyngloddiau haearn. O'r gorllewin y daw'r celfi derw gwledig, sef anrhegion priodas i'r pâr ifanc.
- Gan fod mwyngloddwyr haearn yn perthyn i'r dosbarth gweithiol uwch, roedden nhw'n gallu fforddio prynu nwyddau moethus.

1855

- Cartref Margaret Rosser oedd hwn, gwraig weddw 48 oed o Sir Gâr yn wreiddiol; a'i mab John, 19 oed; merch 14 oed a mab arall 12 oed. Roedd Mrs Rosser yn ennill bywoliaeth trwy werthu llaeth o gwmpas yr ardal. Glöwr oedd ei mab, John, ac mae'n debygol fod ei mab ieuengaf yn gweithio danddaear hefyd.
- Roedd ei gŵr William Rosser wedi marw erbyn Cyfrifiad 1851. Mwyngloddwr haearn oedd ei waith bob dydd.

1895

- Dyma gartref William Richards, brodor o Lanismel, Sir Benfro; ei wraig o Ferthyr, a'u merch. Roedd William Richards yn signalwr rheilffyrdd (roedd rheilffyrdd yn amgylchynu Rhyd-y-car bryd hynny – rheilffordd Dyffryn Nedd, gorsaf Dyffryn Taf a'r rheilffyrdd rhwng y gweithfeydd a'r tipiau glo).

1925, 1955 and 1985

- Cartrefi teuluoedd enghreifftiol yw'r tri bwthyn olaf, gan fod materion moesol yn ymwneud ag ailadeiladu cartrefi pobl sy'n fyw heddiw neu sy'n dal o fewn cof.

Rhyd-y-car (41)

Ffeithiau difyr

Beth am ganolbwyntio ar themâu gwahanol yn ystod eich ymweliad, e.e. amodau byw, bwyd, deunyddiau adeiladu, ynni ac ati?

Amodau byw

- Un ystafell wely sydd ar lawr uchaf pob bwthyn. Yn y pedwar bwthyn cyntaf, byddai'r rhieni'n cysgu ar y llawr isaf, a'r plant yn cysgu i fyny'r grisiau.
- Does dim tŷ bach yn y ddau fwthyn cyntaf (1805 a 1855). Roedden nhw'n defnyddio'r tomenni rwbel a'r tipiau lludw cyfagos. Efallai bod ganddyn nhw dai bach cymunedol erbyn 1855. Byddai'r cymdogion wedi rhannu'r tŷ bach ym 1895.
- Tua 1851, adeiladwyd popty wrth dalcen pob teras i bobi bara.
- Pan adeiladwyd y teras gwreiddiol, roedd y trigolion yn gorfod casglu dŵr o'r nant yn Rhyd-y-car neu o afon Taf neu gamlas Sir Forgannwg. Yn dilyn ymchwiliad i epidemig colera ym 1849 a 1853, cafodd y bythynnod eu gwella. Cafodd pwmp dŵr ei osod gerllaw'r terasau.
- Nid yw'r celfi'n ymddangos mor wladaidd erbyn 1895. Roedd rhai eitemau, fel y sieffinîr (seldfwrdd addurnedig) yn cael eu masgynhyrchu a'u gwerthu am bris rhesymol yn siopau lleol Merthyr. Mae'r tŷ hwn yn cynnwys mwy o decstilau, sy'n rhoi naws mwy clud i'r lle (e.e. lliain bwrdd chenille, yr hosanau ar goesau'r bwrdd i osgoi marcio'r llawr).
- Sylwch ar dwll arch yn Rhyd-y-car, 1925. Dyma ffordd o gludo corff i lawr o'r ystafell wely.

Rhyd-y-car (41)

Bwyd

- Roedd pobl yn bwyta o bowlenni pren ym 1805. Roedden nhw'n coginio dros dân agored ac yn defnyddio pot coginio mawr yn aml.
- Erbyn 1855, roedden nhw'n defnyddio dysglau. Byddent yn coginio ar radell neu faen uwchben y tân, ac yn troi cigwain (ar y dde) o flaen tân.
- Er bod popty bach yn rhan o'r lle tân erbyn 1895, roedd y radell neu'r maen yn offer coginio pwysig o hyd.
- Ym 1925, fe welwch fod yr ystafell fyw wedi'i rhannu'n ddwy; gyda llawr leino a'r celfi gorau agosaf at y drws, a'r celfi bob dydd wrth y lle tân. Yr 'ochr orau' o'r tŷ fyddai'r cymdogion yn ei gweld wrth basio'r drws. Dim ond ar ddydd Sul y defnyddiwyd yr 'ochr orau'.
- Erbyn 1925, roedd gan y tai ddŵr tap am y tro cyntaf erioed.
- Mae tŷ 1955 yn cynnwys cegin fach. Roedd sied yr ardd yn cael ei defnyddio fel ystafell fyw ac ystafell weithio.

Deunyddiau adeiladu

- Sylwch ar y gwahanol fathau o ddeunyddiau sydd ym mhob tŷ er enghraifft llechfaen cerrig a phlastig.
- Doedd dim modd agor y ffenestri yn y ddau fwthyn cyntaf (1805 a 1855), ond erbyn 1895, roedd ffenestri dalennog yno, a chyfle i gael awyr iach yn y bwthyn.

Ystyriwch y cwestiwn canlynol wrth fynd o un bwthyn i'r llall:

- Beth sy'n wahanol o fwthyn i fwthyn, a beth sy'n debyg rhyngddyn nhw? Cymharwch nhw â'ch cartref chi heddiw.

Am ragor o wybodaeth?

- Ar werth yn siop yr Amgueddfa: Eurwyn Wiliam, *Rhyd-y-car: a Welsh mining community* (1987).
- John Davies, *Hanes Cymru*, tt 307-488.
- Gwyn A. Williams, *The Merthyr Rising*.